

Adolygiad Blynyddol 2020-21





Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (CECA) Cymru

Adeiladu'r seilwaith y mae ar ein cenedl ei angen er mwyn ffynnu

Bu'r llynedd yn dipyn o her a dweud y lleiaf, fel y bu i'r rhan fwyaf o fusnesau.

Er ein bod wedi llwyddo i symud ymlaen â rhai o'n cynlluniau, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith enfawr dros y 12 mis diwethaf a bu'n rhaid i ni roi blaenoriaeth i gefnogi ein haelodau i ddod trwy'r cyfnod hwn. Mae'r adolygiad hwn yn bwrw golwg ar y cyfnod anodd hwn a'r heriau y mae contractwyr peirianeg sifil ledled Cymru wedi'u

hwynebu. Mae hefyd yn dangos sut mae aelodau CECA Cymru'n dal i gyfrannu at les cyffredinol Cymru trwy sicrhau gwell seilwaith.

Yn bwysig iawn, mae adolygiad hwn yn rhoi cipolwg ar yr hyn a allai ddigwydd i'r diwydiant ac i'n haelodau dros y 12 mis nesaf.

Meddyliau'r Cadeirydd

Roedd gennym ddisgwyliadau mawr ar gyfer 2020, on'd doedd? Ond bu'r llynedd yn heriol a dweud y lleiaf.

Cafodd ein byd ei droi â'i wyneb i waered gan bandedig y coronafeirws ac roedd gofyn i ni, fel busnesau, ymateb ar frys. Ac fe wnaethom. Rwy'n wirioneddol falch o'r ffordd y daliodd ein diwydiant ati i weithio trwy'r cyfnod hwn. Rwy'n falch hefyd o'r gwaith a wnaethom ni, yn CECA Cymru, i helpu'n haelodau i ymateb i'r argyfwng ac mae'r adolygiad hwn yn ein hatgoffa o'r gwaith hwnnw.

Ond, er gwaetha'r pandemig, rhaid cofio ein bod wedi llwyddo i fwrw ymlaen â rhai o'n cynlluniau ar gyfer 2020. Cymerwyd camau breision wrth gefnogi Cymwysterau Cymru i sefydlu cymwysterau newydd TGAU, Safon Uwch a chymwysterau sylfaen yn yr "amgylchedd adeiledig", gyda'r rhain yn dod yn ddewisiadau clir ar gyfer addysg pobl ifanc ochr yn ochr â phynciau mwy traddodiadol. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer denu rhagor o bobl i'n sector. Bu gennym ran allweddol hefyd yn sefydlu Fforwm Adeiladu Cymru – rhywle y gall y diwydiant cyfan, y sectorau cyhoeddus a phreifat, ddod ynghyd i dacio'r prif elfennau sy'n effeithio ar bob un ohonom megis gwelededd y llif gwaith, proses gaffael symlach a thaliadau tecach.

Wrth edrych i'r dyfodol, ni all neb anwybyddu heriau newid yn yr hinsawdd na'r cyfraniad y gall seilwaith wedi'i "ddatgarboneiddio" ei wneud at leihau ein hallyriadau byd-eang yn gyffredinol. Mae gennym ni fel contractwyr ran allweddol i'w chwarae yn y technolegau rydyn ni'n eu defnyddio ond hefyd yn y ffordd mae'n busnesau ni'n gweithredu. Dyna pam rwy'n falch y bydd CECA Cymru yn cyflwyno'i hadroddiad ei hun ar "Ddatgarboneiddio ein Seilwaith" yn ein Cynhadledd Flynyddol ym mis Mai 2021. Mae'n dangos pa mor bwysig ydyw ein bod yn dylanwadu ar y dyfodol yn ogystal â gweithredu yn y presennol.

Mae ein hymateb i'r pandemig wedi dangos pa mor wydn a hyblyg yw'r diwydiant ac mae'n dal yn ddiwydiant cyffrous i fod yn rhan ohono gyda chyfleoedd diddiwedd. Ond mae angen i ni weld buddsoddiad sylweddol yn ein seilwaith yn 2021 a'r tu hwnt fel y gallwn adeiladu ein ffordd i ddyfodol gwell a thecach.

Mike McAndrew,
Cadeirydd CECA Cymru



Cewch wybod mwy am ein Bwrdd Gweithredol **yma**.

Syniadau'r Cyfarwyddwr

Roedd yn flwyddyn ryfedd, on'd oedd?! Roedden ni i gyd yn meddwl mai Brexit fyddai'r her fawr ond yna, dyma Covid-19 yn cyrraedd. Does dim byd fel pandemig byd-eang i'n gorfodi i ailystyried ein blaenoriaethau!

Roedd gennym lond lle o gynlluniau cyffrous ar gyfer 2020 ond bu'n rhaid canolbwyntio ar ein hymateb i'r pandemig am ran helaeth o'r flwyddyn. Fel sy'n briodol, mae'r adolygiad hwn yn ymdrin â'r ymateb hwnnw a'r gefnogaeth a roesom i'n haelodau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ceisio parhau i roi sylw i: yr ymdrechion i gynyddu buddsoddiad, sicrhau eglurder ar gyfleoedd gwaith yn y dyfodol, symleiddio'r ffordd mae busnesau'n cynnig am waith (a lleihau costau bidio) a sicrhau bod busnesau'n cael eu talu'n deg ac yn brydlon. Felly,



mae'r adolygiad hefyd yn nodi'r gwaith rydym wedi'i wneud gyda'n partneriaid i sefydlu Fforwm Adeiladu Cymru fel bod mwy o lais gennym ar lefelau'r llywodraethau ac ymhlith ein gwahanol gleientiaid.

Wrth edrych ymlaen at 2021 a'r tu hwnt, byddwn yn dal i fwrw ymlaen â'r materion sy'n bwysig i'n haelodau, gan gydweithio â'n cleientiaid a'n partneriaid i greu gwell amgylchedd busnes.

Ed Evans,
Cyfarwyddwr, CECA Cymru

Cewch wybod pwy yw ein haelodau **yma**.

Safbwynt ieuenctid

Sefydlwyd y Foundations Group i ymgysylltu ag aelodau iau CECA Cymru, gan elwa ar eu syniadau a'u hegri.

Bu'n anodd symud ymlaen â'n rhaglen waith y llynedd ac, yn ddi-os, cafodd y pandemig effaith fawr ar fywydau pobl ifanc ond mae gennym ni, sy'n gweithio yn y diwydiant hwn, lawer i ddolch amdano gan ein bod wedi cael parhau i weithio.

Edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod? Er mwyn profi chwyldro mewn seilwaith ac ailgodi'n gryf ar ôl y pandemig, mae'r angen i ddenu pobl i'r sector ac i sicrhau amrywiaeth yn

ein gweithlu yn bwysicach fyth. Felly, byddwn yn parhau i gefnogi ymgyrch CECA Cymru i "ddenu'r disgleiriaf a'r gorau" ond byddwn yn canolbwyntio hefyd ar heriau newid yn yr hinsawdd a'r angen i ddatgarboneiddio ein seilwaith. Mae hynny'n teimlo fel rhaglen i ni ar gyfer 2021 a'r tu hwnt!

Bryn Davies,
Cadeirydd Foundation Group
CECA Cymru



Cewch wybod mwy am y Foundation Group **yma**.

Ymateb i Covid-19

Dyma dipyn o ffeithiau allweddol am ein hymateb yn ystod y pandemig. Cliciwch ar y ddolen isod i gael manylion llawn y gweithgareddau a gynhaliwyd gennym.

Bwletinau dyddiol
ar faterion oedd yn codi



Cyhoeddwyd
dros
100.
fwletinau

Cewch weld ein Hymatebion yma.



Cyhoeddi dros
500
o negeseuon ar y
cyfryngau cymdeithasol,
datganiadau i'r wasg ac erthyglau
er mwyn sicrhau sylw i'r sector




Tair rheol er mwyn
DIOGELU CYMRU



Golchi
dwyllo



Gwisgo
gorchudd wyneb



Cadw
2m ar wahân



Cyfarfodydd dyddiol gyda
chydweithwyr yn CECA

ledled y DU

er mwyn deall
goblygiadau ehangach
mecanweithiau cefnogi
ac arferion da



Dros
100
o gyfarfodydd

Blaenoriaethau i'n sector ni


Ers i gyfyngiadau'r cyfnod clo cyntaf lacio, rydym wedi gallu mynd yn ôl at ein rhaglenni gwaith gwreiddiol a symud ymlaen â nhw. Mae llawer o'r rhain "yn ôl ar y cledrau" erbyn hyn.

Cewch wybod mwy am ein rhaglen waith **yma**, ond dyma "giplun".

Y "Pedair C" – ein themâu dros y 12 mis diwethaf a sut wnaethom ni?

Rydym wedi seilio ein rhaglen waith ar bedair thema sy'n bwysig i'r diwydiant. Rydym wedi galw'r rhain yn "bedair C".

Cliciwch ar y dolenni isod i ddarllen mwy.



Codi Proffil: Gwerthfawrogi Seilwaith

Mae cael llywodraethau a chleientiaid i rannu ein barn am seilwaith bob amser yn her ond rydym yn parhau i bwysleisio'r negeseuon. Mae hyn yn arbennig o wir yn awr, a ninnau ym "mlwyddyn etholiad" y Senedd ac ymgiprys am seddi yn Senedd Cymru. Cyn Etholiadau'r Senedd 2021:

- Y Ceisiadau Allweddol
- Maniffesto CECA Cymru

Ac rydym bob amser yn mynegi barn mewn ymgynghoriadau sy'n ymwneud â seilwaith, yn cynnwys:

- Strategaeth Drafndiaeth Cymru
- Seilwaith Rheilffyrdd
- Ynni Adnewyddadwy

Rydym wedi gwneud llawer mwy ar y cyfryngau cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn cyfrannu'n rheolaidd at erthyglau mewn papurau newydd, ar lein ac ar gyfryngau eraill fel radio a theledu.

- Adeiladu'r Adferiad
- Arwain yr Adferiad

"Llif arian, llif gwaith a phobl sy'n rhoi bywyd i'n diwydiant"



Ac mae llawer o bobl yn dal i wyllo ein fideo ar YouTube sy'n tynnu sylw at waith ein haelodau.

Gwerthfawrogi Seilwaith

Byddwn yn diweddarau hwn cyn hir er mwyn sicrhau bod ein holl aelodau'n cael eu cynnwys, felly daliwch ati i gofnodi'ch holl brosiectau gwyh.

Caffael: Symleiddio'r broses

Er bod y rhan hon o'r busnes yn dal yn rhwystredig, rydym wedi bod yn brysur yn paratoi ymatebion i Lywodraethau Cymru a'r DU wrth iddynt geisio cyflwyno deddfwriaeth newydd i fynd i'r afael â'r diffygion presennol. Bydd angen mwy na deddfwriaeth i newid diwylliant ac ymddygiad ond mae'n gam i'r cyfeiriad cywir. Dyma'r ymgynghoriad ar y:

**Bil Partneriaeth Cymdeithasol
a Chaffael Cyhoeddus**

a dyma'n hymateb i Bapur Gwyrdd
Llywodraeth y DU:

Transforming Public Procurement



Cefnogi Pobl: Denu pobl i'r diwydiant

Rydym wedi cydweithio'n ddiflino â Cymwysterau Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod cymwysterau newydd yr "amgylchedd adeiledig" ar gyfer ysgolion yn addas at y diben ac yn adlewyrchu'r sector peirianeg sifil. Mae bron yn bryd i bobl ifanc ddechrau astudio ar gyfer TGAU a Lefel A yn y sector, ynghyd â'r brentisiaeth sylfaen y bu disgwyl mawr amdani. Cewch wybod mwy am y cymwysterau hyn ar wefan Cymwysterau Cymru:

Cymwysterau Cymru

A buom yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu adnoddau i gefnogi ysgolion a cholegau yng Nghymru fel rhan o'r arlwy "gwerth cymdeithasol". Cymerwch gip ar wefan GoConstruct y CITB i weld beth sydd ar gael:

Go Construct Educate



Cefnogi Pobl: Gofalu am ein gweithlu

Trwy gydol y pandemig buom yn cydweithio â llywodraethau, cleientiaid a'n partneriaid yn y diwydiant i sicrhau bod busnesau'n gallu cynnig gweithleoedd diogel, lle gallai'r gweithlu gadw pellter cymdeithasol.

**Canllawiau Covid ar
gyfer Gweithleoedd**



Cynnydd trwy Gydwethio

Er na allem gwrdd â'n partneriaid na chynnal y llu o ddigwyddiadau yr oeddem wedi'u cynllunio, daeth gwerth ein partneriaethau i'r amlwg wrth ddelio ag effeithiau'r pandemig. Trwy gyfrwng technolegau digidol a dulliau cyfathrebu rhithwir, roedd modd i ni symud ymlaen yn gyflymach fyth wrth i ni ymdrechu i rannu cymaint o wybodaeth ag oedd modd gyda'n haelodau. Mae ein partneriaethau ag eraill wedi bod hyd yn oed yn bwysicach inni wrth hybu'r blaenoriaethau sydd gennym yn gyffredin yn y cyfnod anodd hwn.

Ac rydym yn dal i gydweithio'n agos â chleientiaid ar draws pob sector, gan gynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Network Rail a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n rheolaidd â'n haelodau i'w helpu i ddeall rhaglenni gwaith a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Gweminar Llif Gwaith




Fforwm Adeiladu Cymru

Bu sefydlu

Fforwm Adeiladu Cymru

mewn ymateb i'r pandemig i ddechrau, yn rhan sylfaenol o'r cynnydd a wnaed.

Mae'r fforwm hwn, o randdeilaid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, o dan gadeiryddiaeth gweinidogion Llywodraeth Cymru, yn caniatáu i ni fynd i'r afael â'r chwe maes blaenoriaeth rydym ni fel diwydiant wedi'u pennu, a meddwl am atebion synhwyrol ac ymarferol.



Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd ardderchog yn gwneud y llif gwaith yn fwy gweladwy

Piblinell Fforwm Adeiladu Cymru

a threfniadau talu tecach trwy gyfrifon banc prosiectau.

Canllawiau i gyfrifon banc prosiectau (PBAs)

Ond mae gennym ragor i'w wneud.



Dathlu llwyddiant

Bu'n amhosibl dathlu llwyddiannau ein diwydiant yn y ffordd "arferol" ond fe wnaethom ni lwyddo i gynnal Gwobrau Blynyddol CECA Cymru 2020 trwy'r cyfryngau cymdeithasol.



1



2



3



4



5



6

Enillwyr 2020 oedd:

Joel Gilliett [1], o Kaymac Marine oedd y Prentis Mwyaf Addawol â Chrefft, gyda chanmoliaeth uchel i **Kate Bowen [2]** o Encon Construction. Aeth gwobr y Peiriannydd Sifil dan Hyfforddiant Mwyaf Addawol (Heb Radd) i **Rhys Williams [3]** o gwmni Alun Griffiths, ac enillodd **Rebecca Manley [4]**, hefyd o gwmni Alun Griffiths wobr y Syrfêwr Meintiau dan Hyfforddiant Mwyaf Addawol. Yn olaf aeth gwobr y Peiriannydd Sifil dan Hyfforddiant Mwyaf Addawol (â Gradd) i **Elliot Bidmead [5]** o Jones Bros UK.

Yn ogystal, rhoddwyd Gwobr Gydabyddiaeth i **Joseph Tucker [6]** o Knights Brown am ddangos cydymdeimlad yn y gweithle trwy helpu dau aelod o'r cyhoedd oedd mewn trafferth a helpu i ddatblygu rhaglen iechyd meddwl Knights Brown.

Gwobrau CECA Cymru 2020

Her Arweinyddiaeth CECA Cymru

Gwaetha'r modd, bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r "Her" ar gyfer ein haelodau ifanc oherwydd y pandemig.

Roedd hynny'n siomedig gan fod y digwyddiad wedi bod mor llwyddiannus ond rydym eisoes wedi dechrau trafod gyda'n partneriaid yn y Fyddin a'r gobeith yw cynnal "Her" yn y de ym mis Tachwedd 2021 ac un yn y gogledd yn y gwanwyn 2022. I godi awydd arnoch, dyma ddolen i

Her Arweinyddiaeth 2019



Dathlu Prosiectau Peirianeg Sifil

Er gwaetha'r pandemig, roedd ein haelodau'n dal i weithio ar brosiectau peirianeg sifil ledled Cymru, gan helpu pobl i gael bywydau gwell.

Er mwyn cydnabod hyn, rydym yn paratoi llyfryn o'r hyn a gyflawnwyd i'w gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2021. Yn y cyfamser, cymerwch gip ar ein fideo

Gwerthfawrogi Seilwaith

o brosiectau blaenorol mewn gwahanol sectorau seilwaith.




Edrych ymlaen at y 12 mis nesaf

Daeth y pandemig â heriau mawr i bawb ohonom, gan ein gorfodi i ailfeddwl am ein ffordd o weithredu ym mhob rhan o'r gymdeithas.

Er ein bod yn dyheu am gael ymwneud â phobl wyneb yn wyneb, mae'n sicr bod dulliau cyfathrebu ar-lein a rhithwir yma i aros. A fydd y daith i'r gwaith ar oriau brif yr un fath eto?! Byddwn yn dal i deimlo effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd, er gwell neu er gwaeth. Ond effeithiau cynyddol newid hinsawdd yw'r her fwyaf oll sydd o'n blaen. Fodd bynnag, rydym ni fel sector wedi dangos ein bod yn wydn, yn gallu addasu i newid a'n bod yn werthfawr i gymdeithas.

Wrth edrych ymlaen, mae'r pandemig wedi gwneud un peth yn glir iawn sef yr angen i'r sector adeiladu ehangach ddefnyddio'i lais unedig yn fwy effeithiol wrth ddelio â llywodraethau, llunwyr polisi a chleientiaid.



Mae Fforwm Adeiladu Cymru

yn gyfle i ni wneud yr union beth hwnnw. Y Fforwm fydd un o'r prif feysydd y bydd CECA Cymru'n canolbwyntio arno yn 2021 ac fe adeiladwn ar y cynnydd a wnaethom eisoes i wneud y llif gwaith yn fwy gweladwy a'r trefniadau talu'n fwy teg. Rydym wedi sefydlu nifer o weithgorau yn y diwydiant hefyd, gyda chleientiaid, trwy'r sector cyhoeddus, i weld sut y gallwn gydweithio i fynd i'r afael â materion fel:

- Datblygu'r gweithlu
- Effeithiau newid hinsawdd
- Cynnydd yn y buddsoddiad mewn seilwaith
- Cynnig mwy o werth

Bydd y rhain yn cyhoeddi adroddiadau yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

“Byddwn yn dal i godi proffil CECA Cymru a’n haelodau ymhlith cleientiaid, gwleidyddion a llunwyr polisi ac yn dal i bwysleisio’r negeseuon hyn.”

Mae gennym gyfle unigryw i newid sefyllfa caffael yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig gan fod Llywodraethau Cymru a’r DU yn awyddus i gyflwyno deddfwriaeth newydd. Rydym eisoes wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad ar:

Trawsnewid Caffael

Fe gawn ni weld beth ddaw o hynny ac yna fe gydweithiwn â chleientiaid yn y diwydiant adeiladu i sicrhau ein bod yn dylanwadu ar newidiadau, nid mewn deddfwriaeth yn unig ond mewn diwylliant ac ymddygiad hefyd. A byddwn yn gwneud ymdrech fawr i ddelio â dyrannu risgiau ar gontractau ar y cyd fel diwydiant yn hytrach na phasio risgiau i lawr y gadwyn gyflenwi. Mae hynny’n dipyn o her ond gadewch i ni fod yn obeithiol!



Gwyddom fod gennym dipyn o dasg o hyd i **“ddenu’r disgleiriaf a’r gorau”** i’n diwydiant ni ond bydd cymwysterau newydd yr “amgylchedd adeiledig” yn help mawr i ni. O ystyried effeithiau’r pandemig ar bobl ifanc, oni fyddai’n wych gweld pobl hŷn yn ein diwydiant yn “addunedu” i roi o leiaf 10% o’u hamser i gefnogi a mentora pobl ifanc yn y diwydiant?

“Beth am i bobl hŷn yn ein diwydiant “addunedu” i roi o leiaf 10% o’u hamser i gefnogi a mentora pobl ifanc yn y diwydiant?”

A beth rydym yn ei wneud i fynd i’r afael â’r her fwyaf oll, newid hinsawdd? Mae gan ein diwydiant ran enfawr i’w chwarae ac mae ein haelodau, bach a mawr, yn gwneud eu rhan. Bydd ein Cynhadledd Flynyddol “rithwir” yn 2021 yn canolbwyntio ar:

Datgarboneiddio Ein Seilwaith

Byddwn yn paratoi adroddiad ar y cyd fel arfer, gyda’r Gymdeithas ar gyfer Ymgynghori a Pheirianeg (ACE) a’n partneriaid yn y sector cyhoeddus yng Nghymdeithas Syrffwyr Sirol (CSS) Cymru, ar y canlyniadau ac yn cyflwyno ein cynllun gweithredu i’r llywodraeth ac i’r diwydiant.



Yn olaf, wrth i ni edrych ymlaen, dylem ein hatgoffa’n hunain o werth ein sector i’r gymdeithas a beth y gallwn ei gyflawni. Yng ngeiriau ein cadeirydd:

“Mae ein hymateb i’r pandemig wedi dangos pa mor wydn a pharod i addasu yw’r diwydiant ac mae’n dal yn ddiwydiant cyffrous i fod yn rhan ohono gyda chyfleoedd diddiwedd. Edrychwn ymlaen at ailgodi Cymru well a thecach.”



“Representing Wales’ largest and smallest civil engineering contractor businesses. Our members build the infrastructure that our nation needs to prosper.”

“Cynrychioli busnesau mwyaf a lleiaf Cymru ym maes contractwyr peirianeg sifil. Ein haelodau ni sy’n adeiladu’r seilwaith y mae ei angen ar ein cenedl er mwyn ffynnu.”

Ed Evans

Director Civil Engineering Contractors Association (CECA) Wales
Cyfarwyddwr, Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (CECA) Cymru

Ed.Evans@cecawales.co.uk
07717 687088 • 029 2081 1116
www.ceca.co.uk @ceca_wales